

Atebion

Ogofâu Dan yr Ogof

Tasg 1

1. Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	cywir	anghywir
Enw ar gapel oedd Dan yr Ogof yn wreiddiol.		✓
Dau frawd ddaeth o hyd i'r ogofâu.	✓	
Daethon nhw o hyd i'r ogofâu yn 1922.		✓
Defnyddiodd Tommy a Jeff Morgan gyryglau i groesi tri llyn.		✓
Daeth Eileen Davies o hyd i ragor o ogofâu yn 1965.		✓
Stalactidau yn unig sydd yn yr ogofâu.		✓
Mae un stalactid yn edrych fel darn o facwn.	✓	
Does neb yn cael mynd i weld yr ogofâu.		✓

Tasg 2

1. Edrychwch ar y colofnau. Cysylltwch y gair â'i ddiffiniad cywir.

	Gair Cymraeg	Diffiniad
1.	ceudwll	twll mawr iawn
2.	cyfyng	cul iawn, heb lawer o le
3.	stalactid	pigyn sy'n hongian o do ogof
4.	stalagmid	colofn neu dwmpath sy'n codi o lawr ogof
5.	cwrwgl	cwch bach â gwaelod crwn

2. Rhowch y gair cywir yn y brawddegau bob tro. Efallai bydd angen treiglo'r gair:

i) Does dim llawer o le yn y dosbarth; mae'n **gyfyng** iawn.

ii) Mae llawer o **ogofâu** ar yr arfordir lle roedd smyglwyr yn arfer cuddio nwyddau.

iii) Mae'r trê'n yn mynd drwy **dwneli** o dan yr afon a'r mynyddoedd.

iv) Roedd pobl yn arfer defnyddio **canhwyllau** i gael golau yn y tŷ.

v) Gair arall am ystafell yw **siambr**.

3. Geiriau eraill posibl: ceudod, ceubren, ceulan, ceunant, tyllog, tyllu.